Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 65/2023
DYDDIAD CYHOEDDI: 14/06/2023

# Adolygiad 24 mis ar ôl Cyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Nodau a Methodoleg yr Ymchwil

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad interim o'r daith ers i Lywodraeth Cymru gyflwyno isafbris am alcohol (IaA) Mae'n ddogfen synthesis sy'n cynnig gwerthusiad cyffredinol, o weithredu, effaith gynnar (24 mis) ac ystyriaethau cychwynnol cyflwyno IaA yng Nghymru. Mae'n defnyddio methodoleg dadansoddi cyfraniad.

1.2 O wneud hynny, mae'r adroddiad wedi dod ag ystod o ddeunydd data gwreiddiol ac eilaidd at ei gilydd. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau interim o werthusiadau IaA eraill, data cyfweld gwreiddiol newydd ychwanegol a deunydd o werthusiadau a myfyrdodau ar weithredu'r polisïau prisio mewn awdurdodaethau eraill, yr Alban yn fwyaf nodedig.

1.3 Nodau cyffredinol yr astudiaeth Dadansoddi Cyfraniad yw: asesu'r cyfraniad (os oes un) mae cyflwyno'r IaA yng Nghymru wedi ei gael i unrhyw newidiadau (mesuradwy a gweladwy) mewn ymddygiad sy'n gysylltiedig ag alcohol, mewn defnydd a deilliannau manwerthu. Drwy wneud hyn, talwyd sylw i'r nodau canlynol:

- Mireinio a gwerthuso'r cyfraniad yn erbyn Damcaniaeth o Newid.
- Darparu gwerthusiad synthesis o werthusiadau IaA penodol eraill o Gymru.
- Dadansoddi llenyddiaeth ehangach, setiau data eraill o Gymru a gwerthusiadau awdurdodaethol (yr Alban yn fwyaf nodedig)
- Cymryd casglu data gwreiddiol penodol ychwanegol i ystyriaeth ar gyfer cyfraniadau ac eglurhad posibl eraill.

1.4 Dylid nodi ei fod, fel adroddiad gwerthuso cyffredinol, yn casglu negeseuon ar draws yr holl boblogaeth, ac felly'n archwilio ystyriaethau ar gyfer yfwyr y boblogaeth yn gyffredinol, yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol, rhai sy'n chwilio am driniaeth a rhai sy'n ddibynnol. Er mwyn sicrhau maint rhesymol a darllenadwyedd, mae wedi peidio, yn fwriadol, ailadrodd (yn ormodol) manylion sydd yn rhywle arall, gan ganolbwyntio'n hytrach ar y dysgu allweddol wrth gyfeirio at y trywydd tystiolaeth presennol.

## 2. Cyd-destun a chefndir

2.1 Mae isafbris am alcohol wedi dod yn ymateb polisi sefydledig cynyddol ledled y byd. Mae wedi ei osod o fewn amrywiaeth o fframweithiau polisi sy'n ceisio rheoleiddio marchnad gyfreithiol a mynd

i'r afael â'r niwed gwybyddus a achosir gan yfed gormod o alcohol. Ystyrir rheoli pa mor fforddiadwy yw alcohol fel un o'r elfennau effeithiol allweddol o bolisi alcohol llwyddiannus.

2.2 Mae deddfwriaeth IaA Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar broblemau megis pa mor fforddiadwy ydyw.

2.3 Mae cefndir cyflwyno polisi isafbris am alcohol (IaA) Llywodraeth Cymru wedi ei nodi mewn manylder mewn sawl adroddiad blaenorol[1]. Roedd cyflwyno polisi IaA yng Nghymru yn amodol ar dri cham ymgynghori yn 2014, 2015 a 2018.

2.4 Cyflwynwyd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) drwy Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2018 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol, gan ddod yn Ddeddf, ar 9 Awst 2018. Gosodwyd isafbris am alcohol yn seiliedig ar uned o alcohol am bris o 50 ceiniog yr uned. Daeth y ddeddfwriaeth i rym ar 2 Mawrth 2020.

2.5 O osod y pris o 50 ceiniog yr uned roedd Llywodraeth Cymru'n benodol yn gosod ei pholisi i dargedu yfed alcohol ymysg yfwyr peryglus a niweidiol, gyda'r nod o ddarparu buddion iechyd gwell i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf, wrth ystyried effeithiau ar yfwyr cymedrol ac ymyrraeth yn y farchnad. Wrth benderfynu ar y lefel 50 ceiniog yr uned, roedd Llywodraeth Cymru'n ofalus o'r dadleuon parhaus ac ystyriaethau terfynol brwydr gyfreithiol Llywodraeth yr Alban i sefydlu cyfreithlondeb ei pholisi isafbris uned (50 ceiniog yr uned).

## 3. Prif ganfyddiadau

3.1 Mae'r adroddiad yn darparu naratif cynhwysfawr ar ddarparu IaA yng Nghymru.

3.2 Wrth wneud hynny mae'n darparu crynodeb manwl o lenyddiaeth bresennol. Mae'n nodi'r ddamcaniaeth o newid a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i weithredu ei pholisi. Wrth amlinellu manylion y fethodoleg ddadansoddi cyfraniad mae hefyd yn amlygu addasiad o'r ddamcaniaeth o newid hon a ddefnyddiwyd gan y tîm gwerthuso. Mae'r cynnig anhepgor yn parhau'n un lle mae cynnydd mewn pris yn arwain at ostyngiad mewn pryniant ac felly'r defnydd, sydd yn y diwedd yn arwain at lai o niweidiau.

3.3 Mae'r adroddiad yn darparu; synthesis o werthusiadau IaA yng Nghymru hyd yn hyn, ystyriaeth i setiau data perthnasol eraill o Gymru, trafodaeth am ffactorau posibl eraill sy'n dylanwadu ar ba mor fforddiadwy yw alcohol a'r defnydd ohono a chrynodeb o'r gwerthusiadau ar gyfer yr Alban a gyhoeddwyd hyd yn hyn. O ddwyn y profiadau a'r safbwyntiau hyn ynghyd mae'n nodi chwe phrif neges.

**Neges Allweddol 1: Gweithredu polisi'n llwyddiannus**

3.4 Bu lefel dda iawn o gydymffurfio â'r polisi. Adroddodd manwerthwyr eu bod wedi cael digon o wybodaeth a'u bod yn gyfforddus yn ei weithredu. Adroddodd Safonau Masnach Cymru mai dim ond chwech o ddirwyon a roddwyd mewn ymateb i dros 3,000 o archwiliadau, ac mae gwiriadau pris drwy nifer o werthusiadau'n dangos isafbrisiau'n cael eu mabwysiadu'n gyson. Er bod rhai ymatebion yn y ddau brosiect ymchwil yn ymwneud ag adborth gan yfwyr sy'n dangos bod peth diffyg cydymffurfio'n bodoli, roedd y darlun cyffredinol yn dangos mai eithriad oedd hyn yn hytrach na'r norm.

3.5 Mae yna newidiadau pris gweladwy clir ar gynnyrch penodol. Mae gwiriadau cynnyrch ac adrodd uniongyrchol yn dangos bod cynnyrch penodol wedi derbyn pwyntiau pris newydd wedi'r 50 ceiniog yr uned a bod peth cynnyrch, o ganlyniad, wedi diflannu neu'n anodd eu prynu. Mae yna ailfformiwleiddio cynnyrch wedi digwydd mewn ambell ddiwydiant, e.e. lleihau'r abv neu faint y cynnyrch i gynyddu pa mor fforddiadwy yw'r cynnyrch.

---

[1] Ymchwil i'r potensial ar gyfer newid sylweddau ar ôl cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru (llyw.cymru); Asesu Effaith Isafbris am Alcohol ar y Boblogaeth Ehangach o Yfwyr - Gwaelodlin (llyw.cymru)

3.6 Manteisiodd Llywodraeth Cymru ar y cyfle i weithredu'r polisi cyn Deddf Cymru 2017. Mae hyn yn alinio â llywodraethau eraill y DU tu allan i Loegr, llywodraethau eraill ledled y byd, a Sefydliad Iechyd y Byd ac felly dylid eu canmol am y penderfyniad.

**Neges Allweddol 2: Effeithiau gweladwy hyd yn hyn**

3.7 Newidiadau mewn cynnyrch/argaeledd. Yn fwy penodol, bu i gyflwyno'r polisi godi pris nifer o gynnyrch alcohol oedd yn rhad iawn cynt, seidr yn nodedig.

3.8 Effaith ar ddefnydd. Nid oedd effaith amlwg i'r mwyafrif, un ai oherwydd nad ydynt yn yfed yn ormodol neu nad yw'r 50 ceiniog yr uned wedi effeithio ar y cynnyrch.

3.9 Yfwyr dibynnol sy'n ceisio cynnal pa mor fforddiadwy ydyw'n gwneud hynny drwy addasu ymddygiadau prynu/ ymdopi/pa mor fforddiadwy ydyw ar hyn o bryd, yn arbennig drwy fynd heb fwyd neu beidio â thalu biliau.

3.10 Rhai materion iechyd/tor-cyfraith negyddol (yn fwyaf penodol mewn elfennau bach o'r boblogaeth yn gyffredinol, yn arbennig y rhai sydd 'angen' alcohol)

3.11 Mae hyn yn cael ei gyfuno ag ystod o bryder ynghylch argaeledd gwasanaethau triniaeth a'r effaith arnynt a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a gofal ehangach.

**Neges Allweddol 3: Cytuno cyffredinol â'r polisi**

3.12 Mae'r polisi wedi cael ei groesawu'n eang. Mae hyn yn cael ei amlygu mewn nifer o werthusiadau ac adroddiadau ac yn cynnwys ymateb cadarnhaol o fewn pob grŵp, e.e. yfwyr, asiantaethau gorfodi, darparwyr, a manwerthwyr. Mae hyn fel arfer yn dod law yn llaw â phryder cytunedig ynghylch argaeledd alcohol rhad a diogelu cenedlaethau'r dyfodol.

3.13 Er gwaethaf hyn bu peth gwrthwynebiad i'r polisi (yn arbennig ymysg rhai darparwyr ac yfwyr) a mynegwyd pryder cyson cyn ac ar ôl gweithredu'r IaA ynghylch yr effaith ar yr yfwyr trwm ar gyflogau isel.

**Neges Allweddol 4: Cyseinio'n gryf â gwerthusiadau yn yr Alban**

3.14 Mae gwerthusiad Cymru'n adleisio peth o'r negeseuon (cadarnhaol) sy'n cyseinio'n gryf â deilliannau gwerthuso'r Alban. Dylai hyn roi hyder yng ngwerthusiadau o Gymru ac unrhyw effeithiau posibl yr IaA.

**Neges Allweddol 5: Pris gofalus**

3.15 Mae'r effeithiau eithaf cyfyng, negyddol a chadarnhaol, yn adlewyrchu'r lefel pris 50 ceiniog yr uned a'r ffaith ei fod yn un gofalus i gychwyn. Gan mai hwn oedd y lefel pris a ddewiswyd yn fwriadol i'w weithredu, a'i fod wedi ei seilio ar amgylchedd economaidd sydd wedi newid yn gyflym, mae llawer yn dadlau fod angen ei ddiweddaru bellach.

3.16 Mae unrhyw effaith posibl ar yr isafbris yn erydu dros amser oherwydd ffactorau megis chwyddiant a chynnydd mewn costau byw.

3.17 Mae'r hinsawdd economaidd-gymdeithasol bresennol yn ei gwneud hi'n anodd i godi'r isafbris neu'r hyn a welir fel cost byw ychwanegol.

**Neges allweddol 6: Mae IaA yng Nghymru yn cymryd lle darparu polisi a gwerthuso blêr**

3.18 Mae natur benodol y ffiniau datganoli'n diffinio i ba raddau y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar bolisi economaidd-gymdeithasol, ac mae ganddi hefyd lai o ddylanwadu ar elfennau eraill polisi cyffredinol ar alcohol, e.e. hysbysebu a thrwyddedu, sy'n wahanol i'r Alban.

3.19 Mae angen gweld IaA yng nghyd-destun yr elfennau polisi effeithiol ar alcohol, yn arbennig darparu triniaeth effeithiol.

3.20 Mae yna nifer fawr adroddiadau posibl sy'n cyfrannu at ddeilliannau data ac unrhyw effaith gweladwy'r IaA.

3.21 Mae'n amlwg, yn benodol, bod COVID-19, a'r argyfwng 'Costau Byw' sy'n dod yn amlwg yn ddylanwadau sylweddol sy'n tynnu sylw.

## 4. Ystyriaethau Cynnar (argymhellion)

4.1 Gan mai gwerthusiad interim yw hwn yn hytrach nag adolygiad llawn, mae'r adroddiad hwn yn darparu'r ystyriaethau allweddol canlynol, yn hytrach nag argymhellion terfynol, i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â nhw o bosibl.

4.2 Cynnal a chefnogi'r ymrwymiad presennol i werthuso a monitro'r polisi IaA.

4.3 Ystyried yn weithredol adolygiad o'r lefel pris 50 ceiniog yr uned bresennol. Ymddengys fod angen codi'r pris i gynnal unrhyw effaith a welwyd gan yr IaA hyd yn hyn. Bydd yn ofynnol cyfathrebu a gweithredu'n unrhyw godi pris yn gelfydd yn y cyd-destun economaidd presennol.

4.4 Parhau i ymgysylltu ag Iechyd Cyhoeddus yr Alban, a monitro ei adroddiad deilliant terfynol. Parhau i gymharu darganfyddiadau'r Alban â rhai Cymru. Bydd y gymhariaeth hon, pan fo'n gyson, yn rhoi hyder yn null gwerthuso Cymru.

4.5 Ystyried pa werthusiadau eraill sy'n ofynnol, lle fo'r angen, er enghraifft effaith yr IaA ar blant, pobl ifanc a theuluoedd.

4.6 Atgyfnerthu'r cyfathrebu ynghylch pwy mae'r polisi yn ei dargedu. Efallai y bydd hyn yn cynnwys yr angen i ail lansio'r neges ynghylch y polisi. Mae gan Lywodraeth Cymru amryw o ymatebion strategol eraill i gynorthwyo'r boblogaeth o yfwyr niweidiol sydd angen triniaeth a chymorth perthnasol. Mae angen deall y negeseuon ynghylch hyn yn well ac o ganlyniad y negeseuon ynghylch pwy sy'n cael ei dargedu yng Nghymru gan yr IaA.

4.7 Gan ystyried y pryder a fynegwyd am yfwyr dibynnol ar incwm isel ac effaith y polisi IaA arnynt, ymddengys ei fod yn hollbwysig i Lywodraeth Cymru sicrhau eu bod yn darparu, rhoi adnoddau a chynorthwyo system driniaeth effeithiol, yn gyson â strategaethau/polisïau eraill, e.e. Y Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau.

4.8 Lle fo'n bosibl, parhau i liniaru materion yn ymwneud â thlodi ac anghyfiawnder cymdeithasol, gan ei fod yn gynyddol glir fod IaA yn effeithio fwyaf ar yr yfwyr trwm hynny sydd â lefelau is o incwm ac sy'n profi tlodi. Mewn perthynas â hyn, ystyried hefyd sut fydd y cynllun cyflawni 'Camddefnyddio Sylweddau' nesaf yn gwneud mwy i integreiddio'r croestoriad o gymorth gyda bwyd, tai, incwm ac ystyriaethau nawdd cymdeithasol eraill, o fewn y gwasanaethau triniaeth uniongyrchol. (Nodi bod anghydraddoldeb ac o ganlyniad amddifadedd yn ffactor amlwg mewn deilliannau iechyd).

4.9 Rydym hefyd yn cynnig yr argymhellion canlynol i ddarparwyr gwasanaeth/triniaeth: (a) Hyrwyddo'r polisi IaA yn well a chynnig cyfeirio clir at wasanaethau cymorth i helpu gyda chyllido, tai, banciau bwyd, cyngor ar berthnasau, cwnsela, atgyfeiriad at ddîtocs, a (b) bod yn glir wrth gynnig cyngor lleihau niwed penodol ynghylch y niweidiau posibl o newid o un cynnyrch alcohol i un arall ac/neu i wirodydd neu sylwedd arall.

Adroddiad Ymchwil Llawn: Adroddiad: Livingston, Madoc-Jones, Holloway, Perkins, Buhociu and Murray (2023). Ymchwil 24 is ar ôl Cyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 65/2023
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/isafbris-am-alcohol-dadansoddi-cyfraniad

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Janine Hale
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-83504-095-9**